# Y Parchedig O. L. Roberts
# 1886-1891



Gwr o Fôn oedd y Parchedig O. L. Roberts a bu'n weinidog ym Maldwyn a Bethlehem, Gwaelod-y-garth cyn dod i Minny Street. Dyma fel y disgrifiodd y Parchedig O. L. Roberts ei ddyfodiad i Minny Street,

*'Yr wyf yn cofio yn awr y diwrnod y daeth Mr. Tom Roberts, y Diacon hynaf hefyd Ysgrifennydd yr Eglwys i'm cyfarfod i orsaf Walnut Tree i gyflwyno yr alwad i mi, penderfynais dderbyn yr alwad, a symudais yn nechrau Gorffennaf y flwyddyn honno, yr un pryd yr oeddwn hefyd yn cymeryd cam pwysig arall mewn bywyd sef priodi gwraig, sef Miss Annie Thomas ... ... Cawsom dŷ yn Crwys Road gan Mr. D. J. Davies, un o'r Diaconiaid, a rhoddasom iddo yr enw 'Cartref'. Nid oedd y cyflog a roddid i mi ond £100 yn y flwyddyn, ac yr oedd yn fenter pur fawr i geisio cadw tŷ a byw mewn tref fel Caerdydd ar swm o'r fath ... ... Yr oedd yr Eglwys y pryd hynny fel y mae wedi bod ar hyd y blynyddau yn nodedig ar gyfrif ei sêl a'i gweithgarwch, ac yr oedd ym mysg yr aelodau rai o'r cymeriadau rhagoraf y cefais erioed y fraint o'u hadnabod.'*

Ymadawodd y Parchedig O. L. Roberts a derbyn galwad i Benlan, Pwllheli yn 1891. Oddi yno aeth i'r Tabernacl, Lerpwl lle bu'n weinidog am 27 mlynedd hyd ei farw yn 1924. Fe'i hetholwyd yn Gadeirydd (yn ddiweddarach newidiwyd y teitl i Llywydd) Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn 1922 ac ef oedd y cyntaf i dderbyn Beibl Cadeirydd yr Undeb.

Dyma sut y mae T. W. Brace, Ysgrifennydd yr Eglwys, yn crynhoi ei weinidogaeth yn ei fraslun o hanes Minny Street o 1883 – 1927 sydd yng nghofnodion yr Eglwys,

*'Profodd ei hun yn un o gymwynaswyr goreu'n henwad a'n cenedl. Un a gerid gan wrêng a bonedd. Ni raid dweud iddo ymaflyd yn ei waith, gyda'r ysbryd hynaws a'i nodweddai, a'r doethineb hwnnw a'i dilynodd hyd i'w fedd. Bu yma yn gweinidogaethu am agos i bum mlynedd, yn deyrngarol i'w feistr, yn ffyddlawn i'w gydnabod, ac Eglwys, ac yn addurn i ddinasyddiaeth y Ddinas.*'

Yn ystod gweinidogaeth y Parchedig O. L. Roberts adeiladwyd y capel a agorwyd yn 1887.

(Glyn E. Jones *allan o* ***Llewyrch Ddoe, Llusern Yfory.*** 2009. *Gol:* J. Gilbert Evans, Glyn E. Jones, Iolo M.Ll. Walters; cyhoeddwyd gan Eglwys Annibynnol Minny Street Caerdydd)